

ELUSEN ARCH NOA

Syniadau i'ch helpu i ddechrau

Ddim yn siŵr sut i fynd tu hwnt i'r disgwyl. Dyma bum syniad ar gyfer pob math o her. Dewiswch un, cymysgwch nhw, neu meddyliwch am syniad eich hun. Y syniadau gorau yw'r rhai rydych chi'n meddwl amdanyn nhw eich hun!

Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

CHI EICH HUN, YN YR YSGOL

Un weithred fach o garedigrwydd dros ddisgybl arall neu athro/athrawes.

UN

Cadwch sedd amser cinio i rywun sy'n eistedd ar ei ben ei hun

DAU

Ysgrifennwch nodyn canmoliaeth cyfrinachol a'i adael ar ddesg cyd-ddisgybl neu athro/athrawes.

TRI

Cliriwch lanast nad chi a'i gwnaeth, heb i neb ofyn.

PEDWAR

Cynigiwch helpu rhywun gyda thasg neu orchwyl yn y dosbarth.

PUMP

Daliwch y drws ar agor i res gyfan o bobl.

Ysgrifennwch beth wnaethoch chi ar stribed lliwgar a'i ychwanegu at gadwyn eich dosbarth. Cadwch yn ddiogel: gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud a ble rydych chi bob amser.

CHI A'CH TEULU, GARTREF

Rhywbeth sy'n mynd tu hwnt i'r disgwyl dros ffrind neu aelod o'r teulu.

UN

Gwnewch frecwast yn y gwely i rywun rydych chi'n ei garu.

DAU

Gwnewch dasg sydd fel arfer yn waith i rywun arall, heb i neb ofyn.

TRI

Gwnewch gerdyn diolch a'i roi i gymydog.

PEDWAR

Helpwch frawd, chwaer neu gefnder neu gyfnither iau gyda rhywbeth anodd.

PUMP

Ffoniwch neu ewch i weld taid, nain neu berthynas sy'n byw ar ei ben ei hun.

Ysgrifennwch beth wnaethoch chi ar stribed lliwgar a'i ychwanegu at gadwyn eich dosbarth. Cadwch yn ddiogel: gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud a ble rydych chi bob amser.

CHI A'CH DOSBARTH, GYDA'CH

Rhywbeth y mae eich dosbarth cyfan yn ei wneud fel tîm i gefnogi eich ysgol.

UN

Gwnewch gardiau diolch gyda'ch gilydd i'r goruchwylwyr amser cinio, y gofalwr neu staff y swyddfa, a'u rhoi iddyn nhw fel dosbarth.

DAU

Gweithiwch gyda'ch gilydd i dacluso ac ad-drefnu man a rennir, fel y gornel lyfrau neu'r cwpwrdd addysg gorfforol.

TRI

Cynlluniwch a chynhaliwch sesiwn croeso i ddisgybl newydd neu ddosbarth iau, gyda swydd i bawb.

PEDWAR

Ymarferwch gerdd neu gân gyda'ch gilydd a'i pherfformio i ddosbarth arall neu mewn gwasanaeth.

PUMP

Cynlluniwch boster neu arddangosfa dosbarth ar gyfer coridor yr ysgol, gyda phob plentyn yn ychwanegu darn.

Ysgrifennwch beth wnaethoch chi ar stribed lliwgar a'i ychwanegu at gadwyn eich dosbarth. Cadwch yn ddiogel: gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud a ble rydych chi bob amser.

EICH YSGOL GYFAN, GYDA'CH GILYDD

Rhywbeth y mae'r ysgol gyfan yn ei wneud i helpu'r gymuned ehangach.

UN

Casglwch sbwriel o amgylch tir yr ysgol neu strydoedd lleol.

DAU

Casglwch eitemau ar gyfer banc bwyd lleol, gydag un rhodd gan bob plentyn.

TRI

Ewch am dro noddedig i safle neu lleoliad nodedig ac adio'r milltiroedd gyda'ch gilydd.

PEDWAR

Gwnewch gardiau neu eitemau cysur i bobl mewn ysbyty neu gartref gofal lleol.

PUMP

Rhowch gymeradwyaeth fawr i ddiolch i'r gwasanaethau brys lleol neu weithwyr cymunedol.

Ysgrifennwch beth wnaethoch chi ar stribed lliwgar a'i ychwanegu at gadwyn eich dosbarth. Cadwch yn ddiogel: gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud a ble rydych chi bob amser.

EICH SYNIAD EICH HUN

Dewiswch eich ffordd eich hun o fynd tu hwnt i'r disgwyl. Ysgrifennwch neu tynnwch lun o'ch syniad yma:

Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Noah's Ark Children's Hospital Charity
noahsarkcharity.org
Registered Charity No. 1069485
Registered No. 3486361